# TRWYDDED GWEITHREDWR CERBYDAU HURIO PREIFAT

***Darllenwch y Polisi Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat cyn cwblhau'r ffurflen hon i sicrhau eich bod chi a'ch cerbyd yn bodloni'r gofynion trwyddedu.***

Cwblhewch y ffurflen hon mewn priflythrennau bloc a rhoi ticiau pan fydd angen. **Nodwch NA FYDD y ffurflen hon yn cael ei phrosesu oni bai bod POB adran isod wedi cael ei chwblhau.**

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi datganiad polisi ynghylch perthnasedd euogfarnau a gallwch ddod o hyd iddo ar wefan y Cyngor neu drwy e-bost gan yr Adran Drwyddedu. **Dylech ddarllen y ddogfen hon cyn cwblhau eich cais.**

**Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This form is also available in English**

## 1. Math o Gais

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cais Newydd | ☐ | | |
| Cais i Adnewyddu | ☐ | Rhif y Drwydded: | Rhowch Rif y Drwydded |

## 2. Manylion yr Ymgeisydd

a) Ymgeiswyr unigol (os ydych yn gweithredu fel cwmni cyfyngedig cwblhewch Adran B isod)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw(au) llawn yr ymgeisydd): | | | |
| Cyfeiriad cartref yr ymgeisydd | | | |
| Cod post: | | | |
| Rhif llinell dir | | Rhif ffôn symudol | |
| E-bost: | | | |
| Dyddiad geni: | DD/MM/BBBB | Gwlad enedigol: | |

b) Ymgeiswyr sy'n gweithredu fel cwmni cyfyngedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw gweithredu'r cwmni | | | |
| Rhif cofrestru'r cwmni: | | Dyddiad ymgorffori | DD/MM/BBBB |
| Cyfeiriad prif swyddfa'r cwmni | | | |

| | |
|---|---|
| Enw a chyfeiriad yr holl gyfarwyddwyr (defnyddiwch daflen ar wahân os oes angen) | |
| Enw Ysgrifennydd y Cwmni (os yw'n berthnasol) | |
| Enw Rheolwr y Cwmni (os yw'n berthnasol) | |
| Cod post: | |
| Rhif ffôn. | |
| E-bost: | |

## 3. Datganiad o Euogfarnau Blaenorol ac ati

Os nad oes gennych drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat gyda'r Cyngor hwn, byddwn yn gofyn ichi gyflwyno Tystysgrif Datgelu Sylfaenol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob blwyddyn. Yn achos cwmnïau cyfyngedig, mae angen cyflwyno Tystysgrif Datgelu Sylfaenol ar gyfer pob cyfarwyddwr ac ysgrifennydd y cwmni bob blwyddyn.

| | |
|---|---|
| A ydych wedi cael euogfarn, rhybudd neu hysbysiad cosb benodedig am unrhyw drosedd heblaw am droseddau moduro? Noder bod y cwestiwn hwn yn berthnasol i ysgrifennydd a phob cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig. | Ydw ☐ Nac ydw ☐ |
| Os ydych, rhowch y manylion isod gan gynnwys dyddiad yr euogfarn a'r ddedfryd/y gosb: | |

| | |
|---|---|
| A oes unrhyw erlyniadau gyrru a/neu droseddol yn yr arfaeth yn eich erbyn? Nodwch fod y cwestiwn hwn yn | Oes ☐ Nac oes ☐ |

| | |
|---|---|
| berthnasol i ysgrifennydd a phob cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig. | |
| Os oes, rhowch y manylion isod gan gynnwys dyddiad y gwrandawiad: | |

| | |
|---|---|
| Ydy'r awdurdod lleol hwn neu unrhyw awdurdod lleol arall wedi gwrthod rhoi Trwydded Gweithredwr Cerbydau Hurio Preifat ichi neu wedi dirymu/atal eich trwydded? Nodwch fod y cwestiwn hwn yn berthnasol i ysgrifennydd a phob cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig. | Ydy ☐ Nac ydy ☐ |
| Os ydy, rhowch y dyddiadau a'r manylion: | |

## 4. <u>Safle Gweithredu</u>

| | |
|---|---|
| Y cyfeiriad lle rydych yn bwriadu gweithredu'r busnes, derbyn archebion, ac ati | |
| A oes gan y safle a ddefnyddir i weithredu'r busnes y caniatâd cynllunio perthnasol ar | Oes ☐ Nac oes ☐<br>Os OES, rhowch y dyddiad y rhoddwyd y caniatâd perthnasol. Os NAC OES, nodwch pa gamau yr ydych yn |

| | |
|---|---|
| gyfer gweithredu busnes? | bwriadu eu cymryd i unioni'r mater hwn a chael caniatâd |
| A oes gan y safle gweithredu ardal aros ar gyfer cwsmeriaid? | Oes ☐ Nac oes ☐ |

| | |
|---|---|
| A fyddwch yn caniatáu archebu drwy ap/ar-lein? | Byddwn/☐ Na fyddwn☐ |
| Llinell gyhoeddus ar gyfer archebu (os yw'n berthnasol) | |

## 5. Gwiriadau Treth

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth fel rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

**Dim ond os ydych yn gwneud cais ar neu ar ôl 4 Ebrill 2022 y mae'r adran hon yn berthnasol, ac os ydych yn gwneud unrhyw un o'r canlynol:**

- adnewyddu trwydded; neu
- wneud cais am yr un math o drwydded a oedd gennych yn flaenorol, a ddaeth i ben lai na blwyddyn yn ôl; neu
- wneud cais am yr un math o drwydded sydd gennych eisoes gydag awdurdod trwyddedu arall

**Gweler pwynt 5 yn y datganiad isod.**

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cod Gwirio Treth** | | | | | | | | | | |

## 6. Datganiad

**Darllenwch yr adran hon yn ofalus a dim ond os ydych yn ei deall a'ch bod yn derbyn pob un o'r datganiadau y dylech ei llofnodi.**

**(1)** Rwyf drwy hyn yn datgan fy mod wedi gwirio'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais hon am Drwydded Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat, a'i bod yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n gwneud y datganiad hwn gan wybod, os wyf wedi gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid, neu wedi hepgor gwybodaeth er mwyn camarwain, y byddaf yn agored i erlyniad a bydd fy nhrwydded (os caiff ei rhoi) yn agored i gael ei hatal neu ei dirymu.

**(2)** Rwy’n deall y bydd unrhyw drwydded yn ddarostyngedig i ddarpariaethau:

a. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
b. amodau trwydded y Cyngor ac unrhyw gyfreithiau, is-ddeddfau neu reoliadau perthnasol eraill sy'n dod i rym

**(3) Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) – Polisi Preifatrwydd**

Ar gyfer ymgeiswyr sy'n gwneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rwyf wedi darllen y Polisi Preifatrwydd i ymgeiswyr ar gyfer Gwiriadau Safonol/Manylach https://www.gov.uk/government/publications/dbs-privacy-policies ac rwy'n deall sut y bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn prosesu fy nata personol a'r opsiynau sydd ar gael imi ar gyfer cyflwyno cais.

**(4) Deddf Diogelu Data 2018**

O ran Deddf Diogelu Data 2018, mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, ac i'r perwyl hwn gall ddefnyddio'r wybodaeth a roddir gennych mewn perthynas â'ch cais am drwydded a'r data a gedwir o fewn yr awdurdod at ddiben atal a chanfod twyll. Lle bo angen, caiff hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gweinyddu arian cyhoeddus a sefydliadau eraill at y diben hwn yn unig. O dan Erthygl 6(1)(e) o'r GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) caniateir inni ddefnyddio data i gyflawni ein swyddogaethau.

Bydd unrhyw ddata a roddir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei brosesu yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data, ac wrth ei roi rydych yn cydsynio i'r Cyngor brosesu'r data at y diben y'i rhoddir ar ei gyfer. Bydd yr holl wybodaeth bersonol a roddir yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol a chaiff ei defnyddio gan y Cyngor yn unig neu ei rhannu ag eraill at y dibenion a ganiateir gan y gyfraith.

**(5) Gwiriad Treth (lle bo'n berthnasol)**

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth fel rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y **canllawiau** gan CThEM wrth gofrestru fy ngwiriad treth.

Drwy roi fy nghod gwirio treth CThEM rwy'n cydsynio i'r Cyngor gadarnhau gyda CThEM fy mod wedi cynnal gwiriad treth.

Rwy'n deall na fyddaf yn cael trwydded os nad wyf yn rhoi cod gwirio treth.

**Hysbysir ymgeiswyr ei bod yn drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid neu hepgor unrhyw ffaith berthnasol wrth roi gwybodaeth.**

| | | |
|---|---|---|
| **Rwy'n deall ac yn derbyn pob un o'r 4 datganiad uchod.** | Dyddiad: | DD/MM/BBBB |

| | | |
|---|---|---|
| Llofnod: | | |
| Printiwch eich enw llawn: | | |